Diweddariad Awst 2020

**PRIFYSGOL BANGOR**
**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

Dylid cynnwys Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisiau newydd, adolygu polisiau a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol[1] er mwyn sicrhau y dileeir unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith cydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

---

**GRWPIAU CYDRADDOLDEB:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | **Anabledd** | **Ailddynodi gender** | **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **Iaith Gymraeg** |
| **Hil** | **Crefydd a chred** | **Rhyw** | **Cyfeiriadedd rhywiol** | **Math o Gontract** |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | | | | |

Sylwer - Mae'n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a math o gontract er bod y meysydd hynny dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010

**Enw neu deitl y polisi: -**

Cod Ymarfer 12: Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaeth ar y Cyd

---

[1] Er y defnyddir y gair POLISI yn y templed hwn, dylid ei newid i STRATEGAETH/PENDERFYNIAD GWEITHREDIADOL fel bo'n briodol

Diweddariad Awst 2020

| **Gwybodaeth am y polisi:** | |
|---|---|
| Beth yw diben y polisi? | Diffinio cod ymarfer y brifysgol ar gyfer partneriaethau addysgu cydweithredol gan gynnwys rhai ôl-radd ymchwil. |
| Pwy sy’n gyfrifol am y polisi? | Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu. |
| Beth yw cysylltiad y polisi â blaenoriaethau strategol y brifysgol? | Ein blaenoriaeth strategol 3: 'prifysgol ryngwladol i'r rhanbarth' a gweithio mewn partneriaeth. |
| Pa grwpiau sy’n rhanddeiliaid yn y polisi? | Staff<br>Partneriaid allanol. |
| A gaiff y polisi ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob maes yn y brifysgol? | Caiff |
| Nodwch y grwpiau y mae’r polisi’n berthnasol iddynt. | Staff<br>Partneriaid allanol. |

| **A roddwyd ystyriaeth i’r materion canlynol? (un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus)** | |
|---|---|
| A allai unrhyw elfennau o’r polisi fod yn wahaniaethol, boed hynny’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol? | Na allai. |
| A ellid defnyddio’r polisi i hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal? | Ystyrir cyfle cyfartal fel rhan o'r broses o wneud trefniadau cydweithredol. |
| A ellid defnyddio’r polisi i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl? | Mae'r cod ymarfer yn gofyn bod cefnogaeth ddogfennol ar gyfer trefniant cydweithredol yn cynnwys polisïau'r sefydliad partner sy'n ymwneud â chyfle cyfartal ac amrywiaeth. |

Diweddariad Awst 2020

| **Monitro** | |
|---|---|
| Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael i gyfrannu at y polisi? | Cofnodion myfyrwyr. |

| **Ymgynghori** | |
|---|---|
| Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio’r polisi? | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r cod hwn. |
| Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad? | |
| Sut mae ymgynghori wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi? | |

| **Gweithredu** | |
|---|---|
| Sut y gweithredir y polisi? | Mae'r cod ymarfer yn rhan o ofynion cyfreithiol ac arfer gorau wrth ymrwymo i bartneriaeth â sefydliad arall. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu’r polisi? | Y Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu sy'n gyfrifol am reoli'r cod. |

Diweddariad Awst 2020

| **Monitro** | |
|---|---|
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nod? | Mae monitro parhaus ac adroddiadau i Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn rhan o galendr blynyddol y brifysgol. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro’r polisi? | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. |
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau na wnaiff roi grwpiau penodol dan anfantais? | Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a rhaid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol. |
| Pryd caiff y polisi ei adolygu i ganfod a yw’n cyrraedd ei nod a’i amcanion? | Mae'r cod ymarfer hon ar gylch adolygu 3 blynedd, ond caiff ei phrofi bob tro y caiff ei defnyddio. |

| **Goblygiadau o ran adnoddau** | |
|---|---|
| Hyfforddiant – a oes unrhyw ofynion hyfforddi'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu neu fonitro’r polisi hwn? | Amh |
| Beth yw’r goblygiadau eraill o ran adnoddau (gan gynnwys amser a baich gwaith) o weithredu’r polisi hwn? | Mae gweithredu'n dod o dan drefniadau diwydrwydd dyladwy y mae'n rhaid i'r brifysgol eu cyflawni cyn ymrwymo i bartneriaethau cydweithredol. |

| **ARGYMHELLION A DYDDIAD ADOLYGU** | |
|---|---|
| 3 blynedd | |
| **ASESIAD EFFAITH – LLOFNOD A DYDDIAD** | |
| Myfanwy Davies | 18 Awst 2020 |